PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 14/15 Ebrill 6/12, 2023 50c.

# Neges y Pasg
# Dau Emyn Dwy Adnod

### 1. Y GROES

Am hynny anfonodd yr ARGLWYDD Dduw ef allan o ardd Eden, i drin y tir y cymerwyd ef ohono.

Genesis 3:23

Yn Eden, cofiaf hynny byth,
bendithion gollais rif y gwlith;
syrthiodd fy nghoron wiw.
Ond buddugoliaeth Calfarî
enillodd hon yn ôl i mi:
mi ganaf tra bwyf byw.



Dyma un o emynau rhyfeddol William Williams, Pantycelyn, na fyddaf byth yn blino ei ganu. Un o'r rhesymau am hynny yw ei fod yn mynegi sylfaen y ffydd Gristnogol mor glir, sef cariad achubol Duw yn Iesu. Yn y pennill hwn fe gyfeirir at y cwymp i bechod yng Ngardd Eden (Gen. 3), sydd yn effeithio ar bawb a phopeth. 'Yn Eden cofiaf hynny byth, bendithion gollais rif y gwlith,' meddai Pantycelyn.

Yn y dechrau fe greodd Duw fyd perffaith, lle yr oeddem yn byw mewn perthynas gariadus gydag Ef. Ynddo ef yr oedd ein llawenydd a'n digonedd. Yn y berthynas hon roedd ystyr a phwrpas i fywyd, cyflawnder a dedwyddwch, tangnefedd ac iechyd. Rhoddodd Duw un rheol i bobl ei chadw ond dewisasant dorri'r rheol honno ac o ganlyniad fe gollwyd y bendithion. Torrwyd ein perthynas gyda Duw a daeth pechod fel agendor mawr i'n gwahanu. Yn sgil hyn daeth salwch a marwolaeth, casineb a gwrthdaro, tristwch a diffyg ystyr i'r byd.

Dyma pam fod Pantycelyn yn dweud 'syrthiodd fy nghoron wiw.' Trwy dorri ein perthynas gyda Duw ein crëwr, torrodd y byd yr ydym yn byw ynddo a chwalwyd ein bywyd fel dynolryw.

Mor ddyrchafol yw ail ran y pennill lle y dywedir, 'ond buddugoliaeth Calfarî enillodd hon yn ôl i mi: mi ganaf tra bwyf byw.'


Yn Iesu trefnodd Duw ffordd trwy ei gariad i bontio'r agendor rhyngom a thrwy Ei farwolaeth aberthol ar y groes Cosbwyd Iesu am ein pechod fel ein bod ni trwy gredu ynddo yn derbyn maddeuant llwyr am ein hanufudd-dod a bendithion iachawdwriaeth. Trwy fuddugoliaeth Iesu, derbyniwn goron ein bendithion unwaith eto. Haleliwia. 'Mi ganaf tra bwyf byw.'

### 2. YR ATGYFODIAD

Dydy e ddim yma; mae wedi dod yn ôl yn fyw! Dyna'n union beth ddwedodd fyddai'n digwydd. Dewch yma i weld lle bu'n gorwedd.

Mathew 28:6

Yr Iesu atgyfododd
yn fore'r trydydd dydd;
'n ôl talu'n llwyr ein dyled
y Meichiau ddaeth yn rhydd:
cyhoedder heddiw'r newydd
i bob creadur byw,
er marw ar Galfaria
fod Iesu eto'n fyw.



Ond nid marwolaeth yr Iesu yw diwedd yr hanes oherwydd rhan fendigedig o stori ei farwolaeth yw ei atgyfodiad. Mae'r ddau beth yn annatod glwm. Mae'r atgyfodiad yn gwbl allweddol. Pe bai Iesu wedi aros yn farw yna byddai ei honiadau wedi bod yn gelwydd. Celwydd fyddai'r hyn a ddywedodd yn Ioan, 'Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw;' Celwydd hefyd fyddai hyn a ddywedodd yn Mathew:

*parhad ar dudalen 2*



## Mae'n fyw

Doedd Tomos ddim yno pan wnaeth Iesu ymddangos, (Tomos oedd yn cael ei alw 'Yr Efaill' – un o'r deuddeg disgybl). Dyma'r lleill yn dweud wrtho, 'Dŷn ni wedi gweld yr Arglwydd!'

Ond ei ymateb oedd, 'Nes i mi gael gweld ôl yr hoelion yn ei arddyrnau, a rhoi fy mys yn y briwiau hynny a rhoi fy llaw i mewn yn ei ochr, wna i byth gredu'r peth!'


Wythnos yn ddiweddarach roedd y disgyblion yn y tŷ eto, a'r tro hwn roedd Tomos yno gyda nhw. Er bod y drysau wedi'u cloi, daeth Iesu i mewn a sefyll yn y canol a dweud, 'Shalôm!' Trodd at Tomos a dweud, 'Edrych ar fy arddyrnau; rho dy fys i mewn ynddyn nhw. Estyn dy law i'w rhoi yn fy ochr i. Stopia amau! Creda!' A dyma Tomos yn dweud, 'Fy Arglwydd a'm Duw!' 'Ti wedi dod i gredu am dy fod wedi fy ngweld i,' meddai Iesu wrtho. 'Mae'r rhai fydd yn credu heb weld yn mynd i gael eu bendithio'n fawr.'

Ioan 20

## Y Parchg Dewi Thomas

Tristwch mawr inni oedd clywed y newyddion am farwolaeth y Parchg Dewi Thomas, Pen-y-bont ar Ogwr. Bu'n weinidog, wedi ymddeol fel athro, yn Siloh, Melincryddan, Castell-nedd, 2000–05. Cydymdeimlwn gyda'i weddw Rita a'i ferch Lona yn eu profedigaeth. Llewyrched goleuni atgyfodiad yr Iesu ar eu llwybrau.

# Neges Basg yr Ysgrifennydd Cyffredinol
# Risus Paschalis – Chwerthiniad y Pasg



Un o dasgau'r Pasg i bregethwyr yr Oesoedd Canol, oedd cymell eu cynulleidfaoedd i chwerthin, arfer oedd â'i wreiddiau'n ddwfn yn niwinyddiaeth y Tadau cynnar fel Awstin Sant, Gregor o Nyssa, a Ioan Chrystostom, a ddatblygodd y syniad i Dduw chwarae tric ar yr Un drwg wrth adael iddo fwynhau ei fuddugoliaeth dybiedig dros Iesu am gwta ddeuddydd, dim ond i weld ei foddhad a'i falchder yn cilio fel tarth yng ngoleuni gwawr y trydydd dydd, gan ei amddifadu'n derfynol o bob llawenydd a dedwyddwch sy'n nodweddu unrhyw wir oruchafiaeth. Newyddion da yn wir, i ennyn llawenydd a gorfoledd yn y saint ac achos iddynt ie, chwerthin.

Wrth gloi'r bennod ar yr atgyfodiad yn ei gyfrol *Menter Ffydd*, dyfynna Dr Vivian Jones linell o eiddo'r bardd Gwyddelig, Patrick Kavanagh, i gyfleu ysbryd rhyddhaol neges y Pasg: 'A laugh freed for ever and ever.' A pha ddelwedd well o obaith rhyddhaol y Pasg, yn ôl Vivian, na 'chwerthiniad tragwyddol'?

Os mai prin yw'r sôn am chwerthin yn y Beibl, nid felly'r cyfeiriadau at lawenydd, llawenydd sy'n rhwym o dorri allan ar dro yn chwerthiniad iachus. Mae'n anodd gweld sut y gall hynny beidio â digwydd wrth ddarllen yr emyn Pasg cyntaf, sy'n enghraifft eithriadol grefftus o gomedi i gyfleu'r gwirionedd bod angau wedi ei drechu.

> Llyncwyd angau mewn buddugoliaeth.
> O angau, ble mae dy fuddugoliaeth?
> O angau, ble mae dy golyn?

Ofn marwolaeth yw arf y gormeswr ac nid oes lle yn y byd, na man yn ein bywydau, ble na phrofir ei rym a'i raib. Bygwth bywyd a wna a'i ddifa, ar faes y gad, trwy wleidydda ysgeler, mewn calonnau hunanol a meddyliau caeedig, di-hid o fuddiannau pobl eraill.

Y mae neges y Pasg yn ein dwyn wyneb yn wyneb â'r Crist atgyfodedig, Iesu o Nasareth, 'a drodd ein tristwch ni yn gân a dawns, ein dagrau oll yn ffrydiau o lawenydd,' chwerthiniad tragwyddol dilynwyr Iesu nad oes tewi na dofi arno. Felly, gadewch inni fod yn 'gadarn a diysgog, yn helaeth bob amser yng ngwaith yr Arglwydd, gan [ein] bod yn gwybod nad yw [ein] llafur yn yr Arglwydd yn ofer.'

Pasg hapus i chi.

**Parchg Dyfrig Rees**

# Dau Emyn Dwy Adnod – *parhad*

> 'Bydd y rheiny yn gwneud sbort am fy mhen, fy chwipio a'm croeshoelio. Ond yna ddeuddydd wedyn bydda i'n dod yn ôl yn fyw!'
>
> Mathew 20:19

Roedd yr atgyfodiad felly yn gyflawniad o waith achubol Iesu. Y darn olaf yn y jig-so. Sut felly? Pam fod yr atgyfodiad corfforol mor bwysig? Wel, oherwydd pe bai Iesu wedi aros yn y bedd golygai nad oedd yr hyn a wnaeth wedi delio gyda'r pechod sy'n ein gwahanu oddi wrth Dduw. Oherwydd canlyniad pechod yw marwolaeth. Nid oedd marwolaeth yn Eden tan ar ôl y cwymp. Felly, mae'r atgyfodiad yn profi fod gwaith Iesu i'n cymodi gyda Duw wedi ei gwblhau yn berffaith. Dyma pam fod Thomas Levi yn canu yn ei emyn, ''n ôl talu'n llwyr ein dyled y Meichiau ddaeth yn rhydd' (meichiau = surety, bail). Ar y groes talodd Iesu ein dyled gan ei fod wedi byw bywyd perffaith ar ein rhan a chymryd y gosb yn ein lle. Nid oedd gan farwolaeth hawl arno. Felly, trwy gredu ynddo Ef cawn faddeuant, bywyd newydd a bywyd tragwyddol. Mae hyn yn newyddion bendigedig sydd, yn trawsnewid ein bywydau ac yn trawsnewid ein byd. Dyma pam y dywedir yn hyderus gan Levi, 'cyhoedder heddiw'r newydd i bob creadur byw, er marw ar Galfaria fod Iesu eto'n fyw.' Dathlwn a llawenhawn yn dwymgalon y Pasg hwn y fuddugoliaeth ryfeddol sydd gennym ynddo Ef. Mae'n fyw.

# Y Beibl anorffenedig

Rwy'n cofio un bore yn eistedd yn y stydi, a dechreuais edrych ar y silffoedd llyfrau sydd o'm mlaen. Wrth gwrs, dwi wedi edrych arnynt gannoedd o weithiau dros y blynyddoedd. Ond y bore hwn, sylweddolais fod nifer o'r llyfrau, yn rhoddion oddi wrth wahanol bobol sydd wedi bod yn ddylanwad arnaf ers bore oes.

Yn eu plith mae nifer o Feiblau o bob maint a gwahanol gyfieithiadau yn Saesneg, Cymraeg, Hebraeg a Groeg (er bo fi ddim wedi defnyddio'r ddau olaf ers dyddiau coleg). Dechreuais edrych tu fewn i gloriau rhai ohonynt a gweld fod un yno un yn cynnwys dyddiadau geni teulu fy mam-gu sydd yn mynd yn ôl mor bell ag 1842. Mae un arall yn sôn am, 'The Death of our Family of H'West' o 1852 ymlaen hyd 1911.

Mae gennyf Feibl gafodd fy nhad wedi'i lofnodi gan ei weinidog pan ymunodd â'r llynges yn ystod yr ail ryfel byd. Mae'r Testament Newydd gefais gan y Gideoniad ym 1965, pan oeddwn yn ddisgybl yn Ysgol y Preseli.

**Anarferol**

Ond y Beibl mwyaf rhyfedd sydd ar y silffoedd, yw'r un sydd yn gorffen, nid yn Llyfr Datguddiad Ioan, fel byddai pawb ohonom yn disgwyl, ond ar ddiwedd y bennod gyntaf o Lythyr Cyntaf Paul at y Thesaloniaid. Dyna ryfedd!

Dyma'r geiriau ar y tudalennau agoriadol:

> *Y Bibl Cyssegrlan, sef Yr Hen Destament a'r Newydd, gyda sylwadau eglurhaol ac ymarferol ar bob pennod gan y Parchg Thomas Rees, DD.*



Cefais y Beibl arbennig hwn gan fy mam-gu, dros hanner can mlynedd yn ôl erbyn hyn. Dwi'n cofio hi'n egluro'r rheswm nad yw'r Beibl yn gyflawn. Roedd hi yn cofio pan oedd hi'n ifanc yn byw yn Tafarn Newydd, sef cartref y teulu ger Rhos y Bwlch, y byddai rhywun yn galw heibio bob nawr ac yn y man yn gwerthu rhannau o'r ysgrythur.

Dros gyfnod o flynyddoedd daeth y rhannau hen o lyfrau'r Beibl yn gyfrol werthfawr iawn i'r teulu. Ond yn ddisymwth bu farw'r person oedd yn gwerthu'r ysgrythur, heb i'r casgliad cyfan o'r Beibl gael ei orffen. Doedd dim i'w wneud, ond casglu'r hyn yr oeddent wedi prynu eisoes a'u rhwymo oddi fewn i gloriau lledr. Felly dyna hanes y Beibl anorffenedig.

Mi fyddai'n ddiddorol clywed oddi wrth unrhyw un o ddarllenwyr *Y Tyst*, oes gennych hanes rhywbeth yn debyg i'r Beibl anorffenedig sydd gennyf ar y silff yn fy stydi.

# HADRIAN A GWADDOL GWRTHRYFEL OLAF YR IDDEWON

**Yn yr erthygl hon mewn cyfres am ddarnau arian hynafol o'i eiddo sy'n dwyn i gof digwyddiadau hanesyddol mawr, mae Alun Lenny yn sôn am gyfnod yr Ymerawdwr Hadrian a gwrthryfel olaf a thrychinebus yr Iddewon. Gwaddol y gwrthryfel hwnnw yw'r sefyllfa yn Israel/Palestina heddiw.**





Mae pawb yn cofio Hadrian fel yr ymerawdwr orchmynnodd codi'r wal enwog am 73 milltir ar draws yr hyn sydd heddiw yn ogledd Lloegr, ychydig i'r de o'r ffin gyda'r Alban. Cafodd ei gorffen yn y flwyddyn 128 OC i amddiffyn ffin ogleddol yr Ymerodraeth Rufeinig. Bedair blynedd yn ddiweddarach, ym mhen arall ei ymerodraeth fawr, bu'n rhaid i Hadrian ddelio â gwrthryfel arall gan yr Iddewon. Bu canlyniad y gwrthryfel blaenorol yn 66-70 OC yn drychineb fawr i'r genedl honno (gweler *Tyst* 9, 2 Mawrth 2023). Chwalwyd y deml yn Jerwsalem, canolbwynt eu crefydd, i'r lle yr oedd disgwyl i bob Iddew deithio ar gyfer y Pasg. Er cymaint y drychineb honno, yn yr ail wrthryfel yn 132-136 OC cafodd y genedl ei dinistrio'n llwyr.

### Ailgodi Jerwsalem

Roedd Hadrian yn ddyn hynod alluog a chwilfrydig, oedd yn arddel traddodiadau Groegaidd yr ymerodraeth, gan gynnwys tyfu barf – fel y gwelwch o lun y denariws sydd gennyf. Roedd â diddordeb mewn diwylliant a chrefyddau gwahanol, ac yn ôl y Llydäwr Ernest Renan, awdurdod ar yr Eglwys Fore â'r Dwyrain Canol, roedd perthynas dda rhwng Hadrian a'r Cristnogion cynnar. Nid felly gyda'r Iddewon. Er bod y deml a dinas Jerwsalem ei hun yn adfeilion ers y gwrthryfel, eu gobaith oedd y byddai'r deml yn cael ei chodi eto rhyw ddydd. Nid oedd y Cristnogion am weld hynny'n digwydd, meddai Renan, gan fod Iesu wedi rhagweld dinistrio'r deml, a rhaid oedd iddi aros felly! Ac fe godwyd teml newydd, ond nid i Yahweh. Pan ddaeth Hadrian i'r ardal fe orchmynnodd y dylid adeiladu dinas newydd ar adfeilion Jerwsalem, fel coloni Rhufeinig yn gartref i gyn-filwyr y Degfed Lleng. Cafodd y ddinas ei hailenwi'n Aelia Capitolina, enw a barodd am rai canrifoedd. Codwyd teml i'r duw Iau (Jupiter Capitolinus) ar safle teml yr Iddewon.

### Y gwrthryfel olaf

I'r Iddewon, roedd codi dinas a theml baganaidd ar safle Jerwsalem, a dileu eu henw, yn sarhad aruthrol. Bu dicter yn corddi yn eu plith ers y gwrthryfel blaenorol, a phan gyhoeddodd Hadrian ei fod am wahardd enwaedu, arferiad oedd mor ganolog i'w crefydd, fe aeth yr Iddewon yn benwan. Yn y flwyddyn 132 cychwynnodd gwrthryfel o dan arweiniad Simon bar Kokhba. Dehonglwyd 'bar Kokhba' i olygu 'Mab y Seren' yn Aramaeg, ac fe gafodd ei gydnabod gan y gwrthryfelwyr fel y Meseia hirddisgwyliedig ar sail y broffwydoliaeth yn Numeri 24:17: 'Bydd seren yn dod allan o Jacob, teyrnwialen yn codi yn Israel.' (Mae cyswllt rhwng y broffwydoliaeth yma â'r seren yn hanes geni Iesu gan Mathew, ond stori arall yw honno!)




Ar y dechrau, bu'r gwrthryfel yn llwyddiant. Trechwyd y Rhufeiniaid ar faes y gad. Fe wnaeth Ben Kokhba alw'i hun yn 'Dywysog y Sanhedrin.' Roedd yn arweinydd didrugaredd. Yn ôl Sant Eusebius, byddai Cristnogion yn cael eu harteithio a'u lladd am wrthod ymuno â'r gwrthryfel. Am ddwy flynedd a hanner bu Israel yn wlad annibynnol.

### Dydd y dial

Ond yna daeth dydd y dial didrugaredd. Fe wnaeth Hadrian anfon Sextus Julius Severus, llywodraethwr Prydain, gyda sawl byddin yn erbyn yr Iddewon. Ar ôl ymladd ffyrnig cafodd Simon bar Kokhba ei ladd yn 135 OC. Cafodd wyth o aelodau blaenllaw y Sanhedrin eu dienyddio mewn ffyrdd sy'n rhy arswydus i'w hadrodd yma. Ciliodd nifer o ymladdwyr a'u teuluoedd i guddio mewn ogofâu yn y creigiau uwchben y Môr Marw, ond ni fu noddfa iddynt yno. Yn ôl haneswyr roedd y lladdfa'n gyfystyr â hil-laddiad yr Iddewon. Gwerthwyd miloedd lawer yn gaethweision ar draws yr ymerodraeth. Cafodd yr enw Jwdea ei ddileu, a bedyddiwyd y wlad yn Palestina.

### Gwaddol y gwrthryfel


Ac felly y bu tan yr 20fed ganrif. Yn negawdau gyntaf y ganrif fe wnaeth dros hanner miliwn o Iddewon o sawl gwlad ymfudo i Balestina. Roedd y tiroedd o dan reolaeth Prydain, a oedd, o dan Gytundeb Balfour, am sefydlu gwladwriaeth newydd i'r Iddewon. Ond, wrth gwrs, ar ôl bwlch o bron i 2,000 o flynyddoedd roedd bobl o dras Arabaidd yn byw yn y wlad honno. Cafodd yr Iddewon eu dymuniad yn 1948 pan ffurfiwyd yr Israel annibynnol ochr yn ochr â thiroedd y Palestiniaid trwy gytundeb mwyafrif aelodau'r Cenhedloedd Unedig. Methiant fu ymdrechion gwledydd Arabaidd cyfagos i oresgyn y wlad newydd yn syth yn 1948, ac eto yn 1967, ac erbyn heddiw mae 8.5 miliwn o Iddewon yn byw yng 'Ngwlad yr Addewid'. Prin y byddai'r Ymerawdwr Hadrian, wrth ddileu'r Israel hynafol yn 136 OC, wedi rhagweld y byddai'n cael ei hailsefydlu yn yr 20fed ganrif. Ond bu hynny ar draul llawer o'r bobl oedd yn byw yno eisoes, a heddiw mae miliynau ohonynt hwy a'u disgynyddion yn ffoaduriaid – yn Gasa, Llain y Gorllewin, neu mewn gwledydd cyfagos. Fel yn nyddiau Hadrian, mae casineb tuag at y concwerwyr yn corddi'n barhaus – ond y tro yma, yr Iddewon yw'r rheini.

(Llun y llyfr: *The Bar Kokhba War AD 132–136*, Osprey 2017 £15.99)

Yr Adran Gydenwadol

EBRILL 6 2023 RHIF 110/111

# Y Pasg – dewis y ffordd sydd yn arwain at heddwch



Llun: SunFlowerStudio / Alamy

Does dim dau funud bron, fe fyddai'n ymddangos, ers pan oedd hi'n aeaf ac yn Nadolig arnom ni. Cawsom amser da bryd hynny – yn canu carolau ac yn sôn am y baban a aned ym Methlehem gyda'r anifeiliaid i gyd o'i gwmpas, y bugeiliaid, y doethion a'r angylion yn gwneud eu hymddangosiad yn eu tro. Buom yn dymuno 'Nadolig Llawen' i'r naill a'r llall. Ond allwn ni ddymuno Pasg hapus i'n gilydd mewn gwirionedd yn wyneb hanes mor wahanol?

Wrth inni gymharu'r Nadolig â'r Pasg, fe welwn fod yna lawer llai o ffws yn cael ei wneud o'r Pasg – dim addurniadau lawer na gwleddoedd mawr nac anrhegion etc. etc. Ond ai oherwydd bod neges y Pasg, ei drais a'i boen, yn anoddach i'w rannu y mae'r byd yn llai parod i'w ddathlu? Mae'r Pasg yn yn anodd inni fel Cristnogion, ond yn anhepgor. Mae'n ein gorfodi i fyfyrio a holi ein hunain wrth sylwi, nid yn gymaint ar fodlonrwydd Iesu i gael ei eni yn ein byd ond i'w roi ei hun yn aberth ar groesbren dros y byd hwnnw. Dangosodd ei fuddugoliaeth lwyr dros angau a'r bedd a phopeth y gall y byd hwn ei daflu ato yn ei atgyfodiad ar y trydydd dydd.

Mae cysgod o'r hyn fyddai'n dod i ran Iesu wedi iddo dyfu a dechrau ar ei weinidogaeth i'w weld ar y dechrau yn hanes Bethlehem. Gwelir yr angylion yn cyhoeddi ei fawredd a'i waith yn dwyn heddwch i ddynol-ryw. Mae'r doethion yn gorfod osgoi Herod a oedd am wrthwynebu unrhyw un a fygythiai ei deyrnas ddaearol ef, hyd yn oed blentyn bychan ym Methlehem. Mae yna ffoi a dioddef a lladd i'w gweld yn hanes y Nadolig hefyd.

Fe ddaw'r gwrthwynebiad i Iesu i'w benllanw ar ddiwedd yr Wythnos Fawr. Roedd honno wedi dechrau gyda Iesu'n dod i mewn i Jerwsalem ar ebol asyn ac yn cael ei dderbyn fel Mab Dafydd sy'n dod i achub ei bobl. 'Hosanna' yw gwaedd y dorf. I'r awdurdodau crefyddol a gwleidyddol, ni fyddai hyn yn gwneud y tro o gwbl, ac fe eir ati i gynllwynio'n derfynol yn ei erbyn, sut i'w ddal a'i ladd. Fe wyla Iesu gan fod y ddinas yn gwrthod ffordd tangnefedd sydd ganddo ar ei chyfer (Luc 19).

Fe ymddengys bod Jerwsalem ymhell iawn o dderbyn ffordd tangnefedd eto yn ein dyddiau ninnau. Mae gorthrwm y Palestiniaid yn parhau a'r Arlywydd Netanyahu yn Israel yn mynnu dal gafael ar ei awdurdod a diddymu hawliau llys uchaf y wlad.

Aeth chwarter canrif heibio ers i heddwch daearol gael ei gynnig i Ogledd Iwerddon ar y Pasg yn 1998. Fe ddewison nhw'r ffordd honno bryd hynny, ond fe wrthododd Israel symud tuag at heddwch gyda'r Palestiniaid gan ymroi i frwydr ddiddiwedd nad oes neb ddim gronyn elwach ohoni. Wylo ddylem ninnau hefyd yn wyneb yr anghydfod yno a phob anghydfod arall lle mae arweinwyr a dinasoedd a gwledydd mor gibddall â gwrthod ffordd tangnefedd.

Y noson cyn iddo gael ei fradychu mae Iesu'n dysgu gwers fawr i'w ddisgyblion – pa fath o frenin ydyw. Mae'n gwneud hynny wrth olchi eu traed a pheri y byddent yn cofio am ei aberth bob tro y bydden nhw'n bwyta bara ac yn yfed gwin gyda'i gilydd. Hanes o dristwch a thywyllwch eithaf yw hanes dydd Gwener y Groglith wrth i Iesu fynnu peidio â dewis y ffordd rwydd ac ildio i ewyllys ei Dad nefol a chwysu dafnau o waed yn yr ardd.

Yng Ngogledd Iwerddon chwarter canrif yn ôl fe ddewiswyd y ffordd anodd a arweiniai at heddwch yng Nghytundeb Gwener y Groglith. Ac roedd bore newydd ar wawrio yno wrth iddyn nhw ddewis felly.

Ar fore'r trydydd dydd fe wawria cyfnod newydd i Iesu a'i bobl a'r byd. I'r gwragedd hynny a'i canlynodd i'r bedd mae rhyfeddod

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Y Pasg – dewis y ffordd sydd yn arwain at heddwch*
*(parhad o dudalen 1)*

mawr y bedd gwag ar fin cael ei ddatgelu iddyn nhw. Cânt y fraint o fod yn dystion fod Iesu wedi ei godi eto'n fyw – y rhai cyntaf i weld gwir lawenydd y Pasg drwy eu dagrau a'u poen, a chael gwireddu eu gobeithion fod Iesu yn fwy na phoen y byd. Mae'r gwanwyn a'r bywyd newydd sy'n arwyddo oes newydd wedi gwawrio ar fore'r trydydd dydd. Gall y Newyddion Da am Iesu fynd ar led yn awr o Jerwsalem oherwydd bod Iesu wedi dewis ffordd y Groes ac wedi hongian arni ar ddydd Gwener y Groglith er mwyn agor ffordd heddwch inni at y Tad.

Mae hanes y Pasg yn gallu bod yn hanes anodd, ac yn un o dristwch a phoen. Ond dyma'r hanes y mae Duw yn dewis ei adrodd ym mywyd ei Fab Iesu Grist. Dylai ein sobri ninnau am effaith drygioni a phechod yn ein byd, effaith parhau mewn rhigolau o ddicter a dialedd, ac effaith gwrthod y tangnefedd y mae'n ei gynnig. Mae'r byd yn taflu ei waethaf at Iesu, ond mae ef yn cofleidio'r byd yn ei gariad a'i ras – 'yn cusanu euog fyd', chwedl yr emyn.

Mynnwn oedi'r Pasg hwn gyda'r hanes anodd ond anhepgor yma a bod yn rhan o gymdeithas dioddefiadau Iesu Grist er mwyn profi hefyd o rym ei atgyfodiad a'r llawenydd bythol sy'n dilyn (Philipiaid 3:10). Nid oedd Iesu yn barod i adael llonydd i'r byd yn ei rigolau o ddialedd, dicter a phoen. Fe fynnodd ddangos ffordd tangnefedd inni i gyd trwy ei boen ei hun. Fe'n geilw ninnau i beidio â rhoi i fyny ar ein byd ac i ddilyn ar ei ôl.

*(H.P.-D.)*



Llun: Dean Molyneaux / Parliament Buildings, Stormont.

---

Cymdeithas Emynau Cymru

## CYFARFOD Y GWANWYN DATHLIADAU 2023

Robert Rhys: 'Dau o emynwyr Heol Dŵr, Caerfyrddin: Peter Williams a David Charles (ieu.)'
Elin Jones: 'Emynau Evan Rees (Dyfed)'
Desmond Davies: 'Titus Lewis, Caerfyrddin'
Rhidian Griffiths: 'John Hughes (Cwm Rhondda) a D. Vaughan Thomas'

### DYDD SADWRN 29 EBRILL 2023

11.00–3.30

(Coffi a the ar gael o 10.30 ymlaen)

**Festri Capel y Morfa, Stryd Portland, Aberystwyth**

Ffi (yn cynnwys cinio bwffe ysgafn): £12; cofrestru yn unig £5

Ateber erbyn **24 Ebrill 2023**:
Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth SY23 2HX
01970 610160 / 07506 482661 rhcgriffiths@btinternet.com

***CYMDEITHASFA'R GOGLEDD***

**Encil y Weinidogaeth Iacháu**

**Capel Pencaenewydd**, LL53 6RB

Dydd Sadwrn, 22 Ebrill 2023

Ymgynnull am 10:00

Encil: 10:30–3 o'r gloch

Dewch â byrbryd



Parch Nesta Davies 07870323790

## Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Bro Dinbych, Henaduriaeth Dyffryn Clwyd (0.6 CALl)
## Galluogwr Cenhadol/Gweithiwr Cymunedol Rhan Amser

Mae gofalaeth Bro Dinbych yn cynnwys wyth cynulleidfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru sy'n canoli ar dref Dinbych. Fel rhan o'n cenhadaeth rydym yn edrych i estyn allan i'n cymuned mewn ffyrdd newydd a chreadigol.

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a gweithgar i ymuno â gwaith yr ofalaeth fel Galluogwr Cenhadol/ Gweithiwr Cymunedol.

**Oriau:** 21 awr yr wythnos, ond gellir ystyried rhannu swydd a chynnwys oriau ychwanegol wrth wneud hynny

**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf

**Cyflog:** Band 22–26 ar raddfa cyflog EBC. Gall y band gynyddu hyd at 27–31, yn ddibynnol ar lefel cymwysterau a phrofiad, a bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC

**Lleoliad:** Mae'r swydd hon wedi ei lleoli ym Mro Dinbych.


Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a'r iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch â:
e-bost – Shanta.Rupalia@ebcpcw.cymru
ffôn – 07787 522904

**Dyddiad cau : 6 Ebrill 2023 am 4 o'r gloch**

# CROESAIR Y PASG



**Ar ôl i chi lenwi'r croesair, fe fydd y llythrennau yn y rhes uchaf a'r llythrennau yn y rhes isaf yn sillafu geiriau o fawl. Daw'r dyfyniadau o'r Beibl Cymraeg Newydd neu *Caneuon Ffydd*.**

**Ar draws**

7. Paradwys (6)
8. Gorfoledded
   cyrrau'r ddaear wrth - -----. *John Roberts* (1,5)
9. A bydd pob ---- yn Jerwsalem a Jwda yn sanctaidd i Arglwydd y Lluoedd. (*Sechareia 14*) (4)
10. Ac aeth Mair Magdalen - -------'r newydd i'r disgyblion. (*Ioan 20*) (1,7)
11. Y diwrnod sancteiddiaf: --- --- - Pasg (3,3,1)
12. Yna ymorchestodd y bwch gafr yn fwy byth, ond yn ei anterth torrwyd - ---- mawr. (*Daniel 8*) (1,4)
15. Yr wyf yn cofio dy farnau erioed, ac yn cael ----- ynddynt, O Arglwydd. (*Salm 119*) (5)
17. "Y mae fy enaid yn ------- yr Arglwydd, a gorfoleddodd fy ysbryd yn Nuw, fy ngwaredwr." (*Luc 1*) (7)
20. Ai am -- ----- -
    dioddefodd Iesu mawr? *John Elias* (2,5,1)
22. Os oes rhywun yn tybio iddo --- - wybod rhywbeth, nid yw eto'n gwybod fel y dylai wybod. (*1 Corinthiaid 8*) (3,1)
23. Bydd bendith ar dy ----- -'th badell dylino. (*Deuteronomium 28*) (5,1)
24. "Aeth --- --- i fyny i'r deml i weddïo." (*Luc 18*) (3,3)

**I lawr**

1. A daeth tyrfa mor fawr ynghyd ato, nes iddo fynd ac eistedd mewn --- -- - môr. (*Marc 4*) (3,2,1)
2. "Codwch ac awn. Dyma fy mradychwr -- ------." (*Marc 14*) (2,6)
3. Y llyfrau sy'n dilyn Eseciel yw ------ - Hosea (6,1)
4. "Nid ydym wedi derbyn unrhyw ----- amdanat ti o Jwdea." (*Actau 28*) (5)
5. "Gwelais yr Ysbryd yn disgyn o'r nef fel colomen, ac fe arhosodd ---- ef." (*Ioan 1*) (4)
6. A rhoddais daw ar -----'- cynaeafwyr. (*Eseia 16*) (5'1)
13. Do, ----- --- y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab. (*Ioan 3*) (5,3)
14. Ac yn enw Crist dof atoch chwi
    I rannu'r ------ - estynnodd i mi. *Carol Owens* (6,1)
16. Y dydd hwnnw … peidied neb fydd -- - --- â throi yn ei ôl. (*Luc 17*) (2,1,3)
18. "…o achos gobaith Israel y mae gennyf y ------ hon amdanaf." (*Actau 28*) (6)
19. Cranogwen oedd enw barddol ----- Jane Rees, morwr, athrawes, a sefydlydd Undeb Dirwestol Menywod De Cymru (5)
21. Paradwys (4)

---

**Diolch i Siân Lewis, Llanilar, am baratoi'r Croesair ar ein cyfer eleni eto.**

**Argraffwch y dudalen ac wedi cwblhau'r croesair anfonwch eich ymgais atom, i: Croesair Cenn@d, Ael-y-bryn, Chwilog, Pwllheli, LL53 6SH, ac fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £20 i'r ateb cywir cyntaf o'r het ar 21 Ebrill ar ei ffordd atoch. Cofiwch gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad!**

cynnal

# GWEDDI AR GYFER Y PASG 2023

***Cysur Duw***

*"Yn nherfysg fy naearfyd – f'angor yw,*
*Fy nghraig ym môr bywyd;*
*Fy rhwyf ar gefnfor hefyd,*
*Ar fin glan, yr hafan glyd."*

***Anhysbys***

Wyddom ni ddim pwy ysgrifennodd y geiriau uchod, na phryd na pham, nac yn lle – "o darddiad neu awduriaeth dienw" yw "anhysbys" yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru!

Ond fe allai cymal cyntaf y llinell agoriadol fod wedi ei hysgrifennu heddiw neu ddoe, neu'r wythnos diwethaf o ystyried maint y terfysg a'r difrod, y rhyfela a'r casineb, sydd yn brigo ym mhob cwr o'n byd ni.

Tybed ai'n difaterwch ni sydd i'w gyfrif am y fath stad?

Cofier bod gwerthu arfau mileinig wedi eu cynhyrchu yn ein ffatrïoedd ni yn creu archollion a cholli gwaed i gyd-ddyn a chymdeithas;

Cofier bod ymdrechion gwledydd cyfagos i ennill goruchafiaeth dros eu cymdogion hefyd yn staen ar ein haelwydydd ni;

Cofier bod llwgrwobrwyo er budd etholiadol a llywodraethu yn gorseddu anonestrwydd ar draul gwirionedd, a ninnau mor ddiniwed ac mor barod i gael ein suo i'w dderbyn yn ddi-gwestiwn.

Deisyfwn nerth i greu byd gwâr, lle nad ydyw'r barus na'r milain na'r cyfrwys yn dewis y cyfeiriad i'n tywys.

Gwyddom hefyd fod ein daear ni ar adegau yn gallu colli ei thymer yn go arw – gall greu tywydd anwadal, gall chwyrnu a rhuo a rhwygo, gan ddinistrio cartrefi a chymunedau.

Dyna pryd y gwelwn dosturi a chariad tuag at ein cyd-ddyn yn brigo ac yn blodeuo.

Bydded i'n gofal dros ffoaduriaid fod yn gynnes ac yn gymeradwy.

Bydded i'n cyfraniadau i'r elusennau hynny sy'n herio'r dinistr wyneb yn wyneb fod yn hael.

A bydded i'r brawdgarwch hwnnw sy'n amlygu ei hun mewn argyfwng fod yn amlwg hefyd yn ein hymwneud â'n gilydd pan fydd y llwch wedi setlo, a'r boblogaeth unwaith yn rhagor yn hercian o ofid i ofid wrth i'r byd droi ar ei echel fel erioed.

Ac wrth sylwi ar weddill yr englyn, unigolyn sy'n siarad, ac am a wyddom gallai yntau fod yn unigolyn bregus ei ffawd a'i fyd – ond mae'n siarad gydag argyhoeddiad am angor, am graig, am rwyf, ac am hafan glyd.

I bawb sy'n gaeth, i bawb sydd â dibyniaeth, i bob un sydd yn teimlo chwerwder mewn bywyd, i bob un sy'n ddigyfeiriad a diymadferth, bydded i "Gysur Duw" fod ar eu lleferydd.

A bydded i neges y Pasg eleni fod yn gyfle o'r newydd i gyfleu llawenydd a gobaith mewn byd o dywyllwch.

**AMEN**




**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:**
wynfordellisowen@adferiad.org
Rhif ffôn: 07796 464 045

**www.cynnal.wales**


# Stori i'w lliwio

## Y Lleidr ar y Groes

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Gwelodd a chlywodd dau leidr bopeth ddigwyddodd pan gafodd Iesu ei groeshoelio. Fe wnaeth un edifarhau a chael ei achub.




Cafodd Iesu ei groeshoelio rhwng dau ddyn drwg oedd yn cael eu cosbi am ddwyn pethau pobl eraill.




Hoeliodd filwr Rhufeinig eiriau ar y groes uwchben Iesu. Dyma oedd y geiriau, "Dyma Frenin yr Iddewon."



Ymgrymodd rhai pobl yn y dyrfa i Iesu a gwneud hwyl am ei ben gan ddweud, "Wnaeth o achub eraill felly dewch i ni ei weld o'n achub ei hun, os mai ef ydy'r Meseia a addawyd gan Dduw."



Dywedodd un o'r dynion drwg wrth Iesu, " Os mai ti ydy'r Crist sydd wedi ei addo, yna achuba dy hun a ninnau hefyd."



Roedd y lleidr arall yn difaru am yr holl bethau drwg roedd wedi eu gwneud. "Mae Duw yn gwybod ein bod ni'n haeddu ein cosbi am y pethau drwg rydan ni wedi eu gwneud ond dydy Iesu ddim wedi gwneud unrhyw beth o'i le."



"Iesu, cofia fi pan wnei di ddod i dy deyrnas,"meddai'r lleidr. Atebodd Iesu, "Dwi'n dweud y gwir wrthyt ti y byddi di heddiw gyda mi ym mharadwys."



Cafodd y lleidr faddeuant a llanwyd ei galon â heddwch a llawenydd oherwydd ei fod wedi credu mai Iesu oedd y Meseia, Mab Duw.

# Rhodd Gostus Crist o Gymod

**Cyfres o fyfyrdodau ar gyfer y Grawys gan yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)**

### Wythnos 7

### ‘Gweithio tuag at weledigaeth ar y cyd dros ddyfodol o gymod yn Ewrop’

### Ysgrythur: 2 Corinthiaid 5:12–20

### Myfyrdod

Fe ddechreuon ni ein taith drwy’r Grawys drwy gymryd ysbrydoliaeth o gynulliad yr Eglwys fyd-eang – Cynulliad Cyngor Eglwysi’r Byd yn Karlsruhe, yr Almaen – a’n dyhead i gysylltu’r profiad hwnnw i’r gwaith o fewn ein cyd-destunau cenedlaethol a lleol. Gorffennwn drwy edrych ymlaen at ymgynulliad arwyddocaol arall ar gyfer yr Eglwys yn Ewrop a gynhelir yn 2023.

Caiff Cynulliad Cyffredinol nesaf Cynhadledd Eglwysi Ewrop ei gynnal yn Tallinn, Estonia, 14–20 Mehefin 2023, wedi ei noddi gan Eglwys Lutheraidd Efengylaidd Estonia ac Eglwys Uniongred Estonia. ‘Dan Fendith Duw – Llunio’r Dyfodol’ fydd y thema.

Daw Cynhadledd yr Eglwysi Ewropeaidd â 113 o eglwysi Protestannaidd ac Uniongred ar draws cyfandir Ewrop at ei gilydd. Mae hefyd yn gweithio’n agos gyda chyrff rhanbarthol Protestannaidd yr Eglwys Babyddol – sef Cyngor Cynadleddau Esgobol Ewrop (CEC) a Chomisiwn Cynadleddau’r Esgobion ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd. Dywed Llywydd CEC, y Parch. Christian Krieger, y bydd y Cynulliad Cyffredinol yn ‘foment arwyddocaol o weddi, cyfeillach a myfyrdod ar fywyd a thystiolaeth eglwysi Ewrop. Bydd y thema yn ein rhwymo ynghyd mewn ysbryd eciwmenaidd i gynnig cyfraniad yr eglwysi tuag at ddyfodol Ewrop. Gyda’n gilydd, mae angen i ni amlygu llais y ffydd Gristnogol mewn cymdeithasau Ewropeaidd wrth ymwneud â’r gwneuthurwyr polisi’.



Yn ychwanegol at ei swyddogaeth lywodraethol, mae’r Cynulliad yn cynnig cyfle i gynnal deialog ar heriau a chyfleoedd pwysig i’r Eglwys yn Ewrop, ac ystyried sut mae ein profiadau Ewropeaidd yn berthnasol i’r cyd-destun byd-eang ehangach. Yn ychwanegol at aelod eglwysi CEC, bydd y ddeialog yn cynnwys cynghorau cenedlaethol eglwysi ledled Ewrop ac ystod eang o fudiadau partner. Y prif themâu i’w hystyried fydd rôl yr Eglwys mewn gwrthdaro, gyda ffocws arbennig ar brofiad Wcráin, ymwneud yr Eglwys â materion hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol a chefnogi arweinyddiaeth ieuenctid. Yn sail i’r gwaith hwn y mae ymwybyddiaeth o effaith materion cyfiawnder cymdeithasol, yn enwedig ym maes cyfiawnder hinsawdd, ar yr amodau ar gyfer heddwch a diogelwch byd-eang.

Mae Ysgrythur yr wythnos hon yn ein hatgoffa o’n galwedigaeth i fod yn asiantau cymod a’r gobaith y gellir adnewyddu popeth yn Nuw. Wrth ddod ynghyd fel eglwysi Ewropeaidd o dan gysgod rhyfel ac mewn hinsawdd o ansicrwydd mawr, mae thema’r Cynulliad Cyffredinol yma’n pwyntio at ein ffydd fel ffynhonnell o obaith wrth i ni edrych tuag at y dyfodol. Mae Ysgrifennydd Cyffredinol CEC, Dr Jørgen Skov Sørensen, wedi mynegi’r gobaith y bydd y Cynulliad yn cynnig ‘arwydd o gefnogaeth ar y cyd fydd yn cynnwys pob cornel o gyfandir Ewrop. Mae’n gyfle i ni ddod i nabod ein gilydd yn well a myfyrio ar botensial cynhenid y ffydd a rannwn’.

### Cwestiynau

- Beth yw’r materion neu’r pryderon y dymunwch chi eu gweld yn cael eu blaenoriaethu ar yr agenda ar gyfer cynulliad yr eglwysi ar draws Ewrop gyfan?
- Pa fethiannau ddylai eglwysi geisio eu cydnabod a gweithio gyda’i gilydd i’w gwella?
- Sut gallai cynulliad yr eglwysi Ewropeaidd ddangos ei gefnogaeth i’r rhai tlotaf a mwyaf bregus ledled byd, a’u consýrn amdanynt?

### Camau Gweithredu

- Cymerwch amser i ddysgu mwy am Gynulliad Cyffredinol CEC a dilynwch y sgyrsiau wrth i’r gwaith ddatblygu.
- Allech chi drefnu gydag eraill i gefnogi gwaith y Cynulliad mewn gweddi yn ystod y paratoadau ac yna’r sesiynau gwaith ym mis Mehefin?
- Ystyriwch ffyrdd lle y gallech chi, o fewn eich eglwys leol neu eich rhwydweithiau eciwmenaidd, helpu i wneud pobl yn ymwybodol o’r cyfle sylweddol hwn i osod agenda ar gyfer yr Eglwys yn Ewrop.

### Gweddi

Dduw cariadus,
Adnewydda ein hymrwymiad tuag at waith cymodi
fel Cristnogion yn Ewrop
ar adeg pan welwn
yn ymosodiad Rwsia ar Wcráin
gost annioddefol rhyfel.
Mae taith cymodi Ewrop
yn y degawdau ers yr Ail Ryfel Byd
yn rhoi gobaith,
er na allwn adfer y cyfan a gollwyd,
y gallwn uno pobl o amgylch
gweledigaeth dros
dyfodol cyfiawn a heddychlon.
Helpa’r Eglwys yn Ewrop
i dynnu ar y ddysg a ddaw
o’n taith eciwmenaidd
a rho i ni’r arweinyddiaeth
yng ngwaith heddwch a chymod,
gan hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol
a’r hyn sydd er budd pawb
o fewn cenhedloedd Ewrop,
gan ofalu am berthnasau rhwng cymdogion
o fewn Ewrop,
a sicrhau cefnogaeth a thegwch
yn ein perthynas â’r byd ehangach.
Amen.

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 9 Ebrill, am 7.00yh**
Daw rhaglen Sul y Pasg o Drelech yn Sir Gâr. Fe ymunwn â chynulleidfa Capel y Graig i gydganu rhai o hoff emynau’r ŵyl. A chawn gipolwg ar sut mae disgyblion Ysgol Gynradd Hafodwenog yn dathlu’r Pasg. Y cyflwynydd yw Nia Roberts.

BBC radio cymru
**7 Ebrill, am 12.30yp** – oedfa ar gyfer Dydd Gwener y Groglith dan arweiniad Aled Jones, Caernarfon

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 9 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**
R. Alun Evans yn cyflwyno emynau ar gyfer Sul y Pasg

**Sul, 9 Ebrill, am 12:00yp**
Oedfa Sul y Pasg, dan arweiniad Rhys Llwyd, Caernarfon

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Golygyddol

## Grym gostyngedig

Y mae hanes y Pasg yn gyfuniad o'r chwerw a'r melys. Chwerwder y groes a melyster yr atgyfodiad. Tristwch Calfaria a llawenydd y bedd gwag. Mae cymaint o bethau trawiadol ynghlwm wrth yr ŵyl ond fe hoffwn dynnu sylw at ddau ohonynt yma yn unig.

### Dioddefaint

Y mae rhai traddodiadau Cristnogol wedi mynd ati i ddarlunio a phortreadu dioddefaint corffol Iesu ar y Groes yn hynod o graffig. Ceir darluniau erchyll, trawiadol a gwaedlyd adeg cyfnod y Dadeni o groeshoeliad yr Arglwydd ac yn fwy diweddar fe ymddangosodd *The Passion of the Christ* (2004) a gyfarwyddwyd gan Mel Gibson. Mae'r ffilm honno'n llawn trais a chreulondeb wrth geisio cyflwyno dioddefaint Iesu yn ystod y Pasg. Ond yr hyn sy'n drawiadol o droi at yr adroddiadau yn yr Efengylau yw nad oes nemor ddim manylu ar y dioddefaint. Cyflwynir y digwyddiad yn ffeithiol ddiaddurn. Ysgrifennodd R. Tudur Jones mewn erthygl 'Pob Rhyw Fflangell' fel hyn:

> Pan drown yn ôl i'r Testament Newydd, gwelir un peth trawiadol ar unwaith. Adroddir stori'r croeshoelio'n gynnil, gynnil. Y mae llymder yr hanes yn golygu nad oes dim manylu ar y poenau a'r erchyllterau. Nid yw'r Efengylwyr yn hofran yn awchus uwchben ingoedd Crist. I'r gwrthwyneb, y maent yn croniclo'r digwyddiad echrydus gyda moelni mawreddog ... Y mae rheswm da dros foelni'r stori yn yr Efengylau ... Yr hyn y mae Crist ei eisiau yw edifeirwch, a llawenydd. Gwerth mawr ei boenau yw eu bod yn datguddio ufudd-dod i Dduw a'i raslonrwydd cyflawn tuag at ddyn. Ond i'r Efengylwr, pethau i'w cadw ar ymylon y darlun ydynt. Y peth sydd yng nghanol y darlun yw buddugoliaeth Gwaredwr ... Nid trasiedi oedd Calfaria ond comedi – y mae'n gorffen gyda ffydd yn troi nid yn unig yn olwg ond yn chwerthin. 'Mae'n holl elynion ni yn awr, Mewn cadwyn...' O ganlyniad y mae gennym ryw fath o safon wrth fesur obsesiwn Cristnogion â phoenau – yr elfen forbid sy'n codi'i phen o bryd i'w gilydd. A'r safon yw'r darlun a ddiogelwyd yn y Testament Newydd ei hun a'r darlun a ddiogelir gan artistiaid cynnar yr Eglwys Gristionogol. Y darlun buddugoliaethus o Grist ar ei groes. A phan gyflëir y darlun hwn yn gywir, gorfodir dynion i wneud un o ddau ddewis. Plygu o flaen y Concwerwr grasol – neu ddim.

### Gostyngeiddrwydd grymus

Yr ail beth yw'r gostyngeiddrwydd a berthyn i Iesu sy'n dangos natur Duw a'i ddull o weithredu. Fe'i ganwyd yn faban bach tlawd a bregus i genedl fechan ddinod a siaradai iaith leiafrifol. Wedi ei eni, bu ei deulu yn ffoaduriaid yn yr Aifft. Magwyd ef mewn ardal ddifreintiedig ac fe'i prentisiwyd fel saer gan ei dad. Pan ddaeth ei awr, aeth i mewn i Jerwsalem ar gefn ebol asyn. Fe'i gwadwyd ac fe'i bradychwyd gan ei gyfeillion, arestiwyd ef gan filwyr, fe'i chwipiwyd ac fe'i dirmygwyd gan yr awdurdodau ac fe'i croeshoeliwyd fel drwgweithredwr. Ef oedd yr unig berson perffaith a droediodd y ddaear hon erioed. Eto, y rhyfeddod yw mai dyma'r ffordd yr oedd Duw yn dod ac iachawdwriaeth i'r byd. Nid trwy rym, nid trwy lu, nid trwy drais, nid trwy filitariaeth ymerodrol ond trwy ostyngeiddrwydd grymus ei annwyl Fab yn rhoi ei hun yn aberth ar groes dros bechodau'r byd. Mynegodd Paul hyn yn ardderchog yn Philipiaid:

> Dylai eich agwedd chi fod yr un fath ag agwedd y Meseia Iesu: [6]Roedd e'n rhannu'r un natur â Duw,
> heb angen ceisio gwneud ei hun yn gydradd â Duw; [7]ond dewisodd roi ei hun yn llwyr i wasanaethu eraill,
> a gwneud ei hun yn gaethwas, a dod aton ni fel person dynol –
> roedd yn amlwg i bawb ei fod yn ddyn. [8]Yna diraddio ei hun fwy fyth,
> a bod yn ufudd, hyd yn oed i farw –
> ie, drwy gael ei ddienyddio ar y groes.


Trwy ei ostyngeiddrwydd grymus gorchfygodd yr Iesu holl bwerau'r fall, deliodd yn uniongyrchol gyda phechod a thywyllwch ein cyflwr dynol, daeth a chyfiawnder i'r byd, sathrodd farwolaeth o dan ei draed a heddiw y mae wedi ei orseddu yn Arglwydd dros bopeth. Cofiwn yr hyn a ddywedodd,

> Oherwydd Mab y Dyn, yntau, ni ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer.
>
> (Marc 10:45)

Os yw'r Meistr wedi gweithredu fel hyn, y mae rheidrwydd arnom ninnau ei ddisgyblion i wneud yr un modd yn y Gymru sydd ohoni.

Pasg llawen. Atgyfodod.

**Alun Tudur**



## Cyngor Undeb yr Annibynwyr

### Adran Cenhadaeth a'r Eglwys fyd-eang

Cynhaliwyd cyfarfod da a buddiol o'r adran adeg ar 14 Mawrth dan gadeiryddiaeth y Parchg Jill-Hailey Harries.

Da nodi i'r amser gael ei dreulio'n gyfan yn trafod materion cenhadol gan ymwneud yn benodol â chenhadaeth ein heglwysi ni fel Annibynwyr. Lleisiwyd pryder gan sawl un am gyflwr bregus yr eglwysi ledled gwlad a'r effaith andwyol gaiff hynny ar y dystiolaeth Gristnogol. Teimlwyd yn gyffredin bod angen hyfforddiant ar yr eglwysi i weld a deall beth yw eu cenhadaeth a sut mae ei chyflawni. A chofio'n perthynas ag CWM a'r posibiliadau sy'n deillio o hynny, trafodwyd y priodoldeb o wahodd 'cenhadwr' atom i'n harwain a'n hysbrydoli tuag at genhadaeth.

#### Onesimus

Gwelwyd bod Prosiect Onesimus, CWM, sydd â'i wreiddiau yn y trafodaethau'n ymwneud â gwaddolion caethwasiaeth, yn rhaglen i annog yr eglwysi i'w mabwysiadu a'i defnyddio i'w hebrwng i genhadaeth gyflawn sy'n cwmpasu bywyd y greadigaeth yn gyfan. Prosiect sy'n siŵr o apelio at Annibynwyr, brwd eu tystiolaeth dros gyfiawnder, iawnderau dynol, addysg, rhyddid a chymdeithas iach.

#### Pwyllgor cenhadol

Cafwyd adroddiad diddorol ac ysbrydoledig gan Mrs Annalyn Davies, cadeirydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin i'r modd yr aeth ei bwyllgor cenhadol ati i alw cynrychiolaeth o eglwysi'r cyfundeb ynghyd i drafod eu safle a'u hanghenion. Nododd y lluniwyd holiadur a'i ddanfon at yr eglwysi, ddwywaith at y rhai nad ymatebodd y tro cyntaf, ac i alwad ffôn ddigwydd wedyn gyda phob un o'r eglwysi, gan dderbyn ymateb oedd bron yn gwbl gadarnhaol. Trefnwyd cyfarfod wyneb yn wyneb ym mhedwar dosbarth y cyfundeb â hynny mewn lleoliadau niwtral tu allan i'r capeli a than arweiniad lleygwyr. Trafodwyd materion ariannol a gweinyddol, y comisiwn elusen a gwaith ieuenctid. Sylweddolwyd yn fuan mai cychwyn proses oedd hyn ac y byddai yna barhad yn sicr iddi.

Gwelodd yr adran sawl mater y mae angen gwaith pellach arno i'w baratoi ar gyfer derbyn sylw llawn yn y cyfarfod nesaf yn y gobaith y daw wedyn, yn ganllaw i'n harwain ar ein taith genhadol.

# Y Golofn Ryngwladol

*I'r Ariannin yr awn y tro hwn i gael cynnwys ein colofn.*



Deuthum i adnabod Harding Stricker o leiaf ugain mlynedd yn ôl, pryd y dechreuodd y ddau ohonom fynychu cyfarfodydd Comisiwn Diwinyddol Cymdeithas Annibynwyr y Byd. Yr oedd Harding yn fab i weinidog yn Jardín América, talaith Misiones yn yr Ariannin, ac wedi ei fagu ynghwmni'r tlodion yr oedd ei dad a'i fam yn gweinidogaethu iddynt. Yn ŵr ifanc, aeth i'r coleg i'w hyfforddi i fod yn feddyg ond wedi ymgymhwyso a dechrau gweithio, teimlai fod Duw yn ei alw yn ôl at ochr ei dad i weithio ymhlith y tlodion. Ymatebodd i'r alwad a dychwelyd adref, ac yno y mae o hyd yn gweithio fel gweinidog a meddyg. Braint neilltuol yw cael adnabod Harding a threulio amser yn ei gwmni.

**Geraint Tudur**

## Cofleidio gwytnwch

Fy enw yw Harding Stricker ac yr wyf wedi bod yn ymwneud â gweithgarwch Cynulleidfaol a chenhadaeth dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf. Nid yw'r wlad yr wyf yn byw ynddi yn enwog am ei sefydlogrwydd gwleidyddol, economaidd na chymdeithasol; i'r gwrthwyneb, yr ydym wedi gorfod ymdopi â phob math o galedi ac anawsterau sydd, yn aml, fel petai yn ymddangos allan o unman. Dim ond yr Ysbryd Glân sy'n gallu cynnal ffyddlondeb ein cymunedau bychain o gredinwyr, a'u galluogi i symud ymlaen, doed a ddelo.

O dro i dro yr wyf wedi teithio i'r Unol Daleithiau i ymweld â chynulleidfaoedd ac unigolion sy'n cefnogi ein gwaith cenhadol yn yr Ariannin, ac i adrodd am ein gweithgarwch a'n anghenion.



*Tad Harding, Teodoro, yn gweddïo gyda'r tlawd yn ôl yn 2003. Mae bellach wedi ymddeol ac yn byw mewn cartref henoed, a Harding wedi cymryd ei le fel gweinidog*

## Milwaukee

Ar un achlysur, gofynnwyd i mi siarad â phlant ysgol rhywle ar gyrion dinas Milwaukee. Soniais wrthynt am y clinig sydd gennym ac am y gofal meddygol a'r meddyginiaethau yr ydym yn eu cynnig am ddim i'r rhai sy'n byw yn y siantis sydd o'n hamgylch. Dangosais iddynt lawer o luniau o'r plant sy'n dod i'n cegin gawl i gael bwyd, ac o'r bobl sy'n plannu cnydau yn ein gardd gymunedol ac yn gweithio'n galed i ofalu amdanynt.

Esboniais wedyn ein bod yn gymuned ffydd sy'n dathlu mewn gwasanaethau ac yn cynnal ysgol Sul, grwpiau ieuenctid ac astudiaethau Beiblaidd. Am fy mod yn ansicr faint o hyn oedd o ddiddordeb i'r plant, penderfynais ofyn iddynt a oedd ganddynt gwestiynau. Ymhen ychydig, gofynnodd un ferch, 'Beth yw'r peth pwysicaf os ydych am fod ynglŷn â gwaith cenhadaeth?' Fe'm synnwyd gan y cwestiwn, a sylweddolais nad oeddwn erioed hyd yn oed wedi gofyn y cwestiwn i mi fy hun!

## Shackleton


Ar unwaith, daeth stori taith Ernest Shackleton i'r Antartig i'm meddwl. Digwyddodd honno rhwng 1914 a 1917 ac enw'r llong oedd ganddo oedd *Endurance* (Dygnwch).

Yn ystod y daith, daliwyd y llong gan iâ moroedd yr Antarctig, ac fe'i suddwyd. Ni wyddai neb am hyn ar y pryd, oherwydd yr oedd y byd yn rhy brysur yn rhyfela i boeni am un llong fechan. Ac eto, ymhen dwy flynedd, cyrhaeddodd y rhai oedd wedi bod ar ei bwrdd Ynysoedd De Georgia a De Sandwich. Achubwyd pawb oedd wedi hwylio ynddi, a llwyddodd pob un i ddychwelyd adref. Yn ddiweddarach, ysgrifennodd Shackleton, 'Euthum trwy uffern heb golli un dyn.' Ac felly, yr oedd gennyf ateb i'r ferch fach. Y peth pwysicaf i'w gael os am fod ynglŷn â gwaith cenhadaeth yw 'dygnwch'. Heddiw, mae'n debyg mai'r gair 'gwytnwch' (*resilience*) y buaswn yn ei ddefnyddio, a hynny am fod i'r gair elfen o obaith, a hyd yn oed peth sirioldeb, wrth geisio goresgyn pa bynnag anawsterau all fod.

Y dyddiau hyn, mae cymunedau Cynulleidfaol yn cael eu gwahodd i gofleidio gwytnwch (*resilience*) wrth iddynt geisio rhoi mynegiant i'w hamryfal brofiadau ysbrydol, a cheisio goresgyn y rhwystrau sy'n gorwedd ar draws eu llwybrau.

Mynegodd awdur Llyfr y Datguddiad hyn trwy sôn am gymuned wedi ei gwisgo mewn gwyn, yn canu ac yn moli. Gofynnwyd y cwestiwn, 'Y rhai sydd wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, pwy ydynt ...? A daeth yr ateb: 'Dyma'r rhai sy'n dod allan o'r gorthrymder mawr; y maent wedi golchi eu mentyll a'u cannu yng ngwaed yr Oen.' (Datguddiad 7:11–14)

**Y Parchg H. Harding Stricker MD**
Aelod ar Gomisiwn Diwinyddol Cymdeithas Annibynwyr y Byd
Cyfarwyddwr Cenhadaeth yr Asociación Civil Cristiana Congregacional



*Byw mewn sianti. Teodoro gyda rhai o'r plant yn eu cartref, eto yn 2003*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

***Dalier Sylw!***
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# DATHLU CYMWYNAS FAWR PETER WILLIAMS

Cafwyd darlith wirioneddol wych gan Eurig Davies o Bontardawe ar achlysur 300 mlwyddiant geni Peter Williams, cyhoeddwr y Beibl esboniadol enwog, yn festri Heol Awst, Caerfyrddin. Roedd y lleoliad yn arbennig o addas, gan y tybir mai ar y safle hwnnw, neu'n agos iawn ato, yr argraffwyd y Beiblau gan Ioan Ross o 1770 ymlaen.

### Galw eithriadol am Feiblau

Roedd y festri sylweddol yn llawn ar gyfer y ddarlith gan Eurig, sy'n dod yn wreiddiol o ardal Rhydargaeau, gan fynychu capel Bwlch-y-corn ac ysgol ramadeg Caerfyrddin. Mewn darlith ar y cyd â lluniau perthnasol ar y sgrin fawr, fe aeth e'n hwylus â ni trwy gefndir y Beibl Cymraeg cyn dod at gyfnod a champ fawr Peter Williams.

Esboniodd Eurig mai dim ond y wasg frenhinol a phrifysgolion Caergrawnt a Rhydychen oedd â'r hawl i argraffu Beiblau. Llwyddodd Peter Williams i osgoi'r rheol trwy gyhoeddi Beiblau ar ffurf esboniad. Bu galw eithriadol amdanynt yn ystod oes Williams ac am ganrif a mwy ar ôl ei farw. Am genedlaethau, hwn oedd y Beibl mewn miloedd di-ri o gartrefi Cymru.

### Hanes trist

Bu Peter Williams yn un o arweinwyr y mudiad Methodistaidd cynnar, ac fe gododd gapel yn Heol Dŵr, ergyd carreg o Heol Awst. Ond tua diwedd ei oes, fe drodd pethau'n chwerw. Adroddodd



Eurig yr hanes trist am y modd y gwnaeth Howell Harris a cheffylau blaen eraill y Methodistiaid droi yn ei erbyn mewn dadl ynglyn â natur y Drindod. Cyhuddwyd Peter Williams o heresi a'i ddiarddel yn Sasiwn Llandeilo yn 1791. Bu farw bum mlynedd wedi hynny, a'i gladdu ym mynwent eglwys Llandyfaelog.

### Trysor teuluol

Roedd Eurig Davies wedi dod â thrysor gydag ef fel rhan o'r cyflwyniad, ac i bawb ei weld wedyn, sef copi o argraffiad cyntaf Beibl Peter Williams, sydd wedi bod yn ei deulu fe a'i chwaer Rhian ers 1770.

Bu'r ymateb i'r ddarlith yn gynnes dros ben. Diolchwyd yn ddiffuant i Eurig am y cyflwyniad, cyn i bawb gael cyfle i gymdeithasu gyda phaned a chacen. Diolch hefyd i Gymdeithas Ddiwylliadol Heol Awst a Smyrna am drefnu'r achlysur hynod lwyddiannus hwn.



# Cymdeithas y Beibl

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig i arweinyddion eglwysi o amrywiol enwadau gan Gymdeithas y Beibl yn y Pierhead ym Mae Caerdydd yn ystod mis Mawrth. Bwriad y cyfarfod oedd ein hannog fel eglwysi i sylweddoli fod Duw yn parhau ar waith yng Nghymru, er yr argyfwng ysbrydol presennol a'i fod yn galw arnom i ddyfalbarhau.

Arweiniwyd y cyfarfod gan Siân Rees, cynrychiolydd y gymdeithas yng Nghymru, a chafwyd cyflwyniad hefyd gan Andy Ollerton. Tynnwyd ein sylw at ganlyniadau holiadur a gomisiynwyd gan Gymdeithas y Beibl yn sgil y Cyfrifiad a roddai ystadegau calonogol am yr angen ysbrydol mae pobl yn teimlo o fewn i gymdeithas. Tynnwyd ein sylw hefyd at adnoddau a gynhyrchir ar ein cyfer.

Fel eglwys rydym yn sylweddoli pa mor bwysig yw gwaith Cymdeithas y Beibl o ran tynnu sylw at ran allweddol y Beibl yn ein tystiolaeth ac yn darparu adnoddau i astudio'r gair. Rydym yn freintiedig iawn o gael eu cefnogi.



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*